Gaeaf (os gaeaf hefyd)

Crynodeb o'r cyfnod 1 Rhagfyr 2011 – 29 Chwefror 2012 ym Mhenisarwaun, Arfon 500 troedfedd uwchlaw wyneb y môr

Les Larsen

Yr oedd y gaeaf yn fwyn iawn, yn wyntog, yn gymylog, yn ddi-haul ac yn ddi-eira. Y tymheredd uchaf oedd 14.7C ar y 26ain o Ragfyr; a'r isaf -4.8C ar y 3ydd o Chwefror. Cawsom ddigon o law gyda chyfanswm yn 366mm, sef 14 modfedd yn fras. Rhew?...dim ond am naw bore. Syrthiodd tymheredd yn is na 0C/32F 4 gwaith yn Ionawr a 5 o weithiau yn Chwefror. Fe farugodd hi yn Rhagfyr 3 gwaith, gyda'r tymheredd isaf yn 0.5C ar yr 16ed o'r mis.

Fel arfer daw'r eira cyntaf i Eryri yn nhymor yr hydref, ond eleni, o'r hyn a welais, oedd yr ail o Ragfyr a hynny ar y copaon uchaf. Gorchuddwyd y mynyddoedd gan gymylau trwchus am gyfnodau hir fel lliain bwrdd gwyn.

Ymatebodd byd natur i'r mwynder: yr oedd gwellt glas yn tyfu bron ar hyd y gaeaf, a bu cyfaill i mi yn Llanrug yn lladd gwair ar y 16eg Dachwedd. Digon tebyg ym Mhenisarwaun; rhai yn torri eu lawntiau yn Chwefror. Yr oedd y darlledwr John Humphrys yn honni iddo gyflawni rhywbeth am y tro cyntaf yn ei fywyd sef torri gwellt glas ei lawnt mor fuan â Chwefror.

Ar y 18fed o Ionawr yr oedd pryfed ffenest yn brysur, a hefyd roedd blodau saffrwn yn dechrau blodeuo. Ar y 18fed o Chwefror 'roedd y caeau yma yn frith o dwmpathau tyrchod daear. Braf oedd gweld blodau llygad Ebrill yn harddu'r cloddiau o gwmpas y pentref yn gynnar yn Chwefror.

Y syndod mawr oedd y gwahaniaeth mawr rhwng gaeaf eleni â'r un y llynedd.